

Manned
11932
LLINELLAU

COFFADWRIAETHOL

AM

RODERICK T. DAVIES

MAB HYNAF Y PARCH. J. DAVIES,

GWEINIDOG LLWYNRHODWAIN, &c ;

Yr hwn a fu farw yn Llundain, y 9ed o Fawrth, 1850, y
24. oed.



Yr impyn teg gwywedig yw,
Na wyla Gristion mwyn ?
Yr byn sydd orau, gwyr dy Dduw,
Taw Gristion, ' taw a'th gwyn ;
Ac er mor ddestlus oedd mewn gwedd,
A'i deg gydynau hardd ;
Gwywodd ei degwch yn y bedd,
O ganol blodau'r ardd.

Ble'r oedd ei harddach yn y wlad,
Dywedwch feibion byd ?—
Ble'r oedd ufuddach un i'w dad,
Neu'i fam a'i magai'n glyd ?
Ble'r oedd un caredicach frawd,
A'i galon yn ddidwyll ?
Dan wen y byd neu dan ei wawd,
Oedd e mewn eitha pwyll.

Ni wisgai i wedd y rhagrith cas,
Andwyol oll yn nghyd ;
Y wen uffernol—gwen ddiras,
Gwenwynig blant y byd !

Agored oedd ei wyneb llon,
Fel arwydd beth oedd e ;
Pa ddelw drigai yn ei fron,
A'i darddiad yn y Ne.

Nid oedd didwyllach cyfaill cun
I bawb adwaeni e ;
Ei law a'i galon oent fel un,
A'i enaid yn eu lle ;
Yn brin y ceir y fath yn bod,
Gormod yw twyll y byd !
I nemawr gellir rhoddi clod
Haeddianol oll i gyd.

Ni chaed e yn gogwyddo'i glust
I iaith ddiras 'n un lle ;
Pan glywai gabledd, d'wedai 'ust !
Er parch i'w Grewr e ;
Aflunir Ie'nctyd hardd yr oes,
Trwy arfer iaith mor ffol,
Efe ni chaed hyd farwol loes,
Yn dilyn dim o'u hol.

Yn llon yr oedd yn ufuddhau
I arch ei Brynwr byw ;
Ar bob cyfleusdra ag a gai,
I'w gofio mewn modd gwiw ;
Nid aeth o'r byd dan wadu'n drist,
Nol dull rhai ie'nctyd ffol ;
Heb fod yn arddel Iesu Grist—
Heb fyned ar ei ol.

Na wylwch heb un gobaith, clywch !
Ar ol eich Roderic mwyn ;
Bydd mewn sefyllfa llawer uwch,*
Arafwch beth o'ch cwyn !
'Does yn y man lle mae e nawr,
Un brofedigaeth gref ;
'Does ing na chustudd yn y llawr,
O fewn ei feddrod ef.

'Does un rhyw ofid dan ei fron !
'Does yno hiraith 'chwaith !
Mae'n llonydd iawn y galon gron,
Rhoes heibio 'i diwyd waith !
Ni chlyw eich galar ar ei ol !
Ni chlyw ochenaid mam !
Mae'n foddus dan ei briddlyd gol, †
Heb chwant i symud cam.

Er fod yn tud ei dafod ffraeth ?
Er dallu i lygaid llon !
Er nad oes glybod iddo 'chwaith
Er gosteg cur y fron !
Er crymu y gwyr cryfion 'nawr,
A gostwng merched can !
Daw Rodric lan o lwch y llawr
Ar ddull engylaidd glan.

Marwolaeth yna ffo i ffwrdd,
Daw adwedd newydd glyd ;

* Y geiriau a arferodd ychydig cyn ei farwolaeth a anfonodd mewn cenadwri at ei feistr. 'Tell him that; I shall have a higher situation soon' † Covering.

Ac mewn mawr syndod e ga gwrdd,
A rhyw hardd newydd fydd;
A newydd fodau, newydd gan,
Hyfrydol fydd y lle!
A chanddo newydd gorff mor lan
Ac un o fewn y ne.

A fynwch iddo ddod o'i fedd
I'r byd gofidus hwn;
I ail glafychu 'n dost ei wedd
Dan aeth ryw boenus bwn?
Cofiwch mae ofid e ar ben,
Marwolaeth nid oes mwy,
'Does fynd 'nawr a dim dan nen,
Na chur na phoen na chlwy.

Rai ifaine ar ei ol, yn ddwys
O cofiwch farw'ch brawd;
Dilynweh ei esampl glwys,
Fel na boch byth dan wawd;
Yna y bydd cyfarfod hardd,
A'ch brawd yn ngwlad yr hedd,
Fry yn y Baradwysaidd ardd,
Yn mhell tu draw i'r bedd.

THOMAS GRIFFITHS.
Caeronnen.

Llanbedr.